**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 26 Ebrill 2016**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Y Cynghorydd Hugh Irving, Aelod Arweiniol Cwsmeriaid a Llyfrgelloedd<br>Y Cynghorydd David Smith - Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus |
| **2** | DATGANIADAU O FUDDIANT | Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad. |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chafwyd unrhyw faterion brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mawrth 2016 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.* |
| **5** | ASESIAD ARIANNOL A CHODI TÂL O DAN DDEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLES (CYMRU) 2014 | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*<br><br>*(a) nodi'r newidiadau gorfodol yn y Ddeddf o asesiad ariannol dibreswyl a chyfraniad wedi'i gapio o £60.00 yr wythnos i bobl sy'n derbyn gofal tymor byr / gofal seibiant am lai na 8 wythnos;*<br><br>*(b) cymeradwyo'r cynnig i gyflwyno newid yn ôl disgresiwn i Ddiystyru Incwm ar gyfer asesiadau ariannol dibreswyl ym mis Gorffennaf 2016, ar ôl cyfnod o gyn-gyfathrebu gyda derbynwyr presennol, ac*<br><br>*(c) argymell bod swyddogion yn cyflwyno adroddiad i'r pwyllgor archwilio priodol ym Medi 2017 i adolygu effaith y mesurau a nodir yn (a) a (b) uchod.* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | |
| **6** | CYFRANOGIAD AELODAU MEWN APELIADAU CYFLOGAETH | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cytuno -*<br><br>*(a) nad oes gofyniad i aelodau gymryd rhan mewn Apeliadau Disgyblu a Gwerthuso Swydd;*<br><br>*(b) y bydd Apeliadau Disgyblu yn cael eu clywed gan y lefel nesaf o reolwr, rheolwr arall, Pennaeth Gwasanaeth priodol neu Gyfarwyddwr. Lle mae apêl yn erbyn diswyddo, bydd angen dau Bennaeth Gwasanaeth/Cyfarwyddwr i ymgynnull fel Panel, a*<br><br>*(c) bydd Apeliadau Gwerthuso Swydd yn cael eu cadeirio gan Bennaeth Gwasanaeth gydag un cynrychiolydd o'r tîm rheoli ac un cynrychiolydd undeb llafur.* |
| **7** | CYNLLUN DIRPRWYO I SWYDDOGION | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo'r Cynllun Dirprwyo Swyddogion (yn amgaeedig fel Atodiad i'r adroddiad) mewn perthynas ag unrhyw swyddogaethau gweithredol sydd wedi'u cynnwys ynddo.* |
| **8** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*<br><br>*(a) nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2015/16 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arnynt ar gyfer y gyllideb;* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *(b) cymeradwyo mewn egwyddor y defnydd o danwariant gwasanaeth a gynigir gan y Penaethiaid Gwasanaeth, yn amodol ar y sefyllfa Alldro Terfynol (a grynhoir yn Atodiad 5 i'r adroddiad);*<br><br>*(c) cymeradwyo'r achosion busnes sy'n ymwneud ag Ysgolion yr 21ain Ganrif i'w hargymell i'r Cyngor Llawn fel a ganlyn -*<br><br>• *cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol a Llawn ar y cyd ar gyfer datblygiad Ysgolion Glasdir, a*<br>• *cymeradwyo'r Achos Cyfiawnhau Busnes ar gyfer Ysgol Carreg Emlyn, a*<br><br>*(d) bod unrhyw gynghorwyr a swyddogion presennol sydd wedi bod yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu prosiectau cyfalaf sylweddol yn cael eu gwahodd i'r seremonïau agoriadol mewn perthynas â'r prosiectau hynny hyd yn oed os nad yw'r cynghorwyr hynny wedi dychwelyd ar ôl etholiadau mis Mai 2017.* |
| **9** | BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.* |